# Cynllun Datblygu Ysgol Gymraeg Trebannws Medi 2026- Medi 2027 (Blwyddyn 2 o'r targed)

| Blaenoriaeth 3 | Cwestiwn | **Gwella'r ddarpariaeth drwy feithrin annibyniaeth ymhlith y disgyblion.**<br><br>**Arweinydd y Flaenoriaeth : Amy Grinter**<br>**Aelod (au) Llywodraethol: Mrs N Williams + Mrs S Jade** |
|---|---|---|

| **Pam mae hyn yn flaenoriaeth - beth mae hunan werthusiad yn dweud wrthym fod eisiau gwella?** | | **Meini prawf llwyddiant – sut bydd y llwyddiant yn edrych ar ôl blwyddyn?** |
|---|---|---|
| Dengys systemau monitro bod angen datblygu sgiliau annibyniaeth disgyblion ar draws yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion cyfnod sylfaen yn parhau i ddibynnu ar gymorth oedolion ac yn cael trafferth gwneud dewisiadau'n annibynnol. O ganlyniad, nid ydynt yn defnyddio adnoddau'n hyderus nac yn dangos digon o ddyfalbarhad wrth weithio ar dasgau heb gefnogaeth barhaus.<br>Yn ogystal, mae rhai disgyblion ym mlwyddyn 3, 4 a 5 yn dangos lefel isel o hunanhyder ac mae angen sicrwydd rheolaidd arnynt wrth gyflawni eu tasgau. | | Sicrhau bod:-<br><br>Disgyblion yn dangos mwy o hyder wrth gwblhau tasgau yn annibynnol heb ddibynnu'n ormodol ar gymorth oedolion.<br>• Disgyblion yn gwneud penderfyniadau priodol ynghylch eu dysgu eu hunain ac yn dewis adnoddau addas i gefnogi eu gwaith.<br>• Disgyblion yn datblygu eu gallu i drefnu eu hamser, eu hoffer a'u gweithgareddau yn effeithiol.<br>• Disgyblion yn dangos mwy o wydnwch wrth wynebu heriau ac yn defnyddio strategaethau i ddatrys problemau yn annibynnol.<br>• Disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a'u hymddygiad eu hunain.<br>• Disgyblion yn datblygu sgiliau hunanasesu a myfyrio, gan adnabod eu cryfderau a'r camau nesaf yn eu dysgu. |